YR ✵ YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] GORPHENAF, 1903. [CYF. III. RHIF 7.

NODION Y MIS.

GANWYD Ralph Waldo Emerson ar y 25ain o fis Mai, 1803, yn Boston. Yr oedd ei dad, William Emerson yn weinidog parchus a dysgedig, a disgwyliai i'w blant fyfyrio yn ddibaid, a gosod nod uchel o'u blaen mewn bywyd. Yn anffodus, pan oedd Ralph ond hogyn wyth oed, bu y tad farw, gan adael ei weddw a'i blant mewn amgylchiadau cymharol dlawd. Yr oedd modryb y plant, Mary Moody Emerson, yn byw gyda'r teulu, ac yr oedd hon yn ddynes o gynheddfau meddyliol a gwroldeb moesol cryf, ac ni phallodd ei hamynedd i argraffu ar feddwl y plant syniadau o ddewrder a dyfalbarhad. Dywedir iddi un tro, pan oedd y cwpwrdd yn wâg, a'r giniaw wedi pallu ymddangos, lenwi meddyliau y plant ag ystraeon am wroldeb a dioddefgarwch. Dyma'r llais furmurai yn nghlustiau Emerson pan yn blentyn. "Dirmyga wegi; dyrchafa dy nod. Gwna yr hyn ydwyt yn ofni ei wneud." Mewn awyrgylch foesol o'r fath, tyfodd y plentyn yn ddyn dewr; a thrwy ymdrech pasiodd drwy ei yrfa golegawl ac ordeiniwyd ef yn weinidog yn Boston yn 1829.

Byr fu ei weinidogaeth. Teimlai ei yspryd mewn llyffetheiriau pan yn gorfod cymeryd rhan mewn rhai o ffurfiau yr addoliad cyhoeddus, a pharodd hyn ysgariad rhyngddo a'r eglwys. Cymerodd daith i Ewrop, a bu hyn yn foddion i leddfu y boen, ac i symud ymaith y cymylau grogent yn y ffurfafen trwy farwolaeth ei wraig. Bu y daith hefyd yn adgyfnerthiad mawr i'w iechyd, yr hwn hyd yn hyn oedd wedi bod yn wael. Ar ol dychwelyd, bu iddo bregethu yn achlysurol am ddeg mlynedd, ond yn y cyfamser cafodd allan ei gongl yn ngwinllan bywyd. Dechreuodd draddodi darlithiau dynodd sylw y byd, a danfonodd gyfrol ar ol cyfrol i'r wasg, a bu fyw yn hen gar-

tref ei dadau yn Concord, nes daeth y terfyn yn namyn pedwar ugain mlwydd oed.

Mae enw Emerson yn adnabyddus trwy y byd. Ond mawr yw yr helbul yn y byd meddyliol wrth geisio penderfynu y *broblem* o'i safle yn mysg y prophwydi, a chael allan lle y gorweddai ei fawredd. Tystia rhai nad oedd mawredd yn perthyn iddo; nad oedd yn athronydd, na phrydydd, na phrophwyd. Nis gallwn fai nu ond yn ngoleuni ein natur a'n personoliaeth ein hunain. Buom am flynyddau yn methu gwerthfawrogi gweithiau Thackeray, tra yn hynod hoff o Dickens, ac yn methu deall y rheswm paham. Yr oedd yr hyn eilw y Sais yn *cynicism* Thackeray yn cuddio ei athrylith a'i bwerau fel ysgrifenydd. Cawn y goreu all unrhyw awdwr drosglwyddo pan yn deall ei amcan, a'i safle, ac yn derbyn ei drysorau meddyliol mewn cydymdeimlad, heb ofyn iddo gytuno â'r syniadau sydd mewn bri yn ein bywyd.

Feallai fod mawredd Emerson yn gorwedd nid yn gymaint yn ei ysgrifeniadau ag yn ei bersonoliaeth aruchel. Wrth ddarllen ei weithiau esgyna ein hysprydoedd i awyrgylch newydd. Os nad yw yn penderfynu holl *broblems* bywyd, mae yn peri i'n heneidiau ddyheu am fwy o ffyddlondeb i'r llais mewnol. Fel hyn yr ysgrifenodd:

> "So nigh is grandeur to our dust,
> So near is God to man,
> When duty whispers low, "Thou must"
> The youth replies, 'I can.'"

Bu Emerson fyw'n ffyddlon i'r llais dystaw main, i'r Duw yn ei enaid. Siaradai yn unol a'r goleu fflachiai o'r uchelder i'w fywyd; ac yr oedd yn ddigon mawr i beidio hidio a gytunai y drychfeddwl newydd â'r syniadau oedd eisoes wedi ddanfon allan i'r byd. Daeth Emerson yn siaradwr hyawdl, ac yr oedd acenion yn ei lais feddent y gallu i effeithio ar ei wrandawyr fel na allai llais neb arall. Feallai y tafla y dyfyniadau canlynol o'i weithiau oleuni ar y gallu feddianai. "Pan fydd i ddyn fyw gyda Duw, bydd ei lais yn dyner fel murmur y nant, neu rugl yr ŷd aeddfed." "Ofna Dduw, a pha le bynag yr elot, bydd dynion yn credu eu bod yn cerdded mewn eglwysi cadeiriol cysegredig." Yn yr ofn sanctaidd hwn, yn ei ymddibyniaeth ar Dduw, yn ei ffyddlondeb dibaid i burdeb moesol, a'r Duw yn y dyn, efallai y gorwedda mawredd Emerson.

Pasiodd Cyrddau Blynyddol y Gymdeithas Undodaidd Frytanaidd a Thramor, yn Llundain, yn llwyddianus. Y Llywydd am y flwyddyn ddiweddaf oedd y Parch. R. A. Armstrong, B.A., Lerpwl; ac mewn araeth dra meistrolgar, ceisiodd roddi desgrifiad o Gristionogaeth Undodaidd. Credai nad yw yn bosibl rhoddi darnodiad o Undodiaeth fel cyfundrefn o athrawiaeth, a bod yn rhaid ystyried Undodiaeth fel agwedd feddyliol tuag at y gwahanol gredoau, y meddwl agored i dderbyn y gwirionedd uwchaf o ba gyfeiriad bynag y daw. Da oedd gweled y Parch. E. D. Priestley Evans yn arwain y rhan ddefosiynol boreu Mercher; ond byddai yn fwy dymunol ei weled yn traddodi y bregeth. Pregethodd y Parch. J. H. Crooker, D.D., o'r Amerig. Mae y Gymdeithas wedi llwyddo i chwyddo y tanysgrifiadau dros dair mil o bunau yn ystod y flwyddyn bresenol.

Y cwestiwn sydd yn llosgi o dan y gwydr yn ein Henwad yn Lloegr yw, a ddylai y Gynadledd dair-blynyddol gael ei gwneuthur yn fath o lys eglwysig. Creda pawb fod yna *eglwysi* Undodaidd mewn bodolaeth ar hyd a lled y wlad, ond nad oes un Gymdeithas Undodaidd yn cynrychioli yr oll. Wrth sicrhau anibyniaeth y gwahanol gynulleidfaoedd, nid oes digon o undeb yn yr Enwad. Mewn undeb mae nerth. Y cyfundeb sydd yn meddu ar y drefn fwyaf arddercbog yw y cryfaf. Mae yr Enwad Annibynol yn teimlo yn gymhwys fel yr Undodiaid; ac y maent yn brysur wrth y gwaith o ddyfeisio cynllun i ddwyn yr eglwysi i fwy o undeb, ac ar yr un pryd ofalu nad yw rhyddid y gwahanol gynulleidfaoedd yn cael ei amharu.

Mae y byd gwleidyddol yn ferw drwyddo, oherwydd y ffaith fod Mr. Chamberlain wedi rhoddi mynegiad i'w farn y dylid ail-ystyried y deddfau sydd yn llywodraethu y cyllid. Am flynyddau mae masnach ein gwlad wedi bod yn rhydd, a'r mwyafrif o bethau angenrheidiol, megys ŷd, &c., yn cael eu dwyn i fewn i'n gwlad heb eu trethu. Dyna y rheswm fod y bara a'r bwyd mor rhad. O dan y drefn hon mae ein gwlad wedi llwyddo, a'r tlodi fodolai ar ddechreu y ganrif flaenorol, yn enwedig yn y wlad, wedi cilio ymaith. Mae'r syniadau newydd am Ymherodraeth (*Imperialism*) mae'n debyg, yn gofyn ail-ystyriaeth o holl ddeddfau y cyllid, er cael cyfleustra i'w cywiro a rhoddi mantais mewn trethiad i'r Trefedigaethau er mwyn eu huno mewn cwlwm annatodadwy â'r fam-wlad. Dyna yn debygol yw amcan Mr. Chamberlain. Ond nid yw aelodau ei blaid ei hun yn cytuno ag ef, ac nis gellir prophwydo beth fydd y diwedd.

Yn yr *Hibbert Journal* am mis Ebrill mae erthygl dda ar athron-

iaeth Martineau gan Proff. A. Seth Pringle-Pattison o Edinburgh. Er yn meddwl yn uchel am Martineau fel athronydd, creda Proff. Pringle-Pattison ei fod yn hanu o lwyth y prophwydi a'r seintiau yn hytrach nag o gyff y meddylwyr athronyddol.

RALPH WALDO EMERSON.

"Cyfaill a chynorthwywr y rhai a ddymunant fyw yn yr yspryd." Fel hyn y desgrifia Matthew Arnold waith neu neges bywyd Emerson. O'r nifer luosog o ddynion a gerfiasant eu henwau ar lechres enwogrwydd yn ngwlad gostwng haul yn ystod y 19eg ganrif, saif Emerson yn ei gylch arbenig ef ei hun, yn hawdd ar y pinacl. Ac heddyw, gan' mlynedd ar ol ei ymddangosiad cyntaf, ac ychydig dros ugain ar ol ei farwolaeth, ymddengys fod ei glod wedi ei sylfaenu ar sail barhaol fel un o brophwydi rhagoraf unrhyw oes.

Prif ddigwyddiadau ei Fywyd.

Fel yn achos dynion enwog yn gyffredin, medd pob digwyddiad, hyd yn nod y distadlaf yn ei fywyd, ddyddordeb. Mor awyddus ydym i wybod yr oll a ellir am ddynion mawr. Anmhosibl diwallu'r awydd. Hoffem wybod sut y treulient eu hamser, gwisgir y llecyn y trigent arno â math o gysegredigrwydd i ni, yn gymaint felly fel y carem rodio hyd yr un llwybrau y rhodiasant hwy hyd-ddynt, ac ysir ni gan awydd i gael allan y grisiau hyd y rhai yr esgynasant i enwogrwydd. Fel y mae tref henafol Stratford wedi bod am genedlaethau bellach yn gyrchfan miloedd o edmygwyr Shakespeare, felly bydd pentref bychan Concord, lle y treuliodd Emerson y rhan fwyaf o'i fywyd, am oesau yn gyrchfan "y rhai a gynorthwyir ganddo i fyw yn yr yspryd." Ond er mor ddyddorol yw hanes digwyddiadau bychain bywyd Emerson, palla gofod i ni wneud rhagor na rhoi amlinelliad byr o'r prif ddigwyddiadau yma. Ganwyd ef yn Boston ar y 25ain o Fai, 1803. Ar ol y cwrs arferol o addysg baratoawl, aeth i Goleg Harvard yn 1817, a daeth allan, wedi graddio yn 1821. Gweinidog Undodaidd oedd ei dad. Yr oedd amryw o'i deidiau hefyd yn weinidogion; a bwriedid iddo yntau i ddilyn yr un llwybr. Ar ol gadael y coleg, bu am ychydig flynyddau yn cadw ysgol mewn gwahanol leoedd. Yn 1826, caniatawyd iddo i ddechreu pregethu. Bu yn pregethu yn achlysurol mewn amryw leoedd hyd 1829, pryd yr ordeiniwyd ef yn gydweinidog a'r enwog Henry Ware yn Boston. Ar ol ymddiswyddiad Ware ychydig ar ol hyn, disgynodd yr holl

ofal ar Emerson. Parhaodd ei weinidogaeth hyd 1832, pryd yr ymddiswyddodd. Yn y flwyddyn ddilynol ymwelodd a Lloegr, yn ogystal ag amryw o wledydd y cyfandir, am y tro cyntaf; ac ar ei ddychweliad i'w wlad ei hun, aeth i fyw i Concord, ychydig tu allan i Boston, lle y cartrefodd am y gweddill o'i oes. Tua'r un adeg y



dechreuodd ei yrfa fel darlithydd ac awdwr—gyrfa a fu yn ffrwythlawn iawn bron hyd derfyn ei oes yn 1882, yn y 79eg flwyddyn o'i oedran. Nid yw hyn ond amlinelliad byr ac anghyflawn o ddigwyddiadau ei fywyd, ond gobeithiwn ei fod yn ddigon i greu awydd yn rhai, o leiaf, o'n darllenwyr i fynu gwybod rhagor am dano.

Ei gysylltiad ag Undodiaeth.

Sylwyd eisoes mai gweinidog Undodaidd oedd ei dad; ac y bwriedid iddo yntau hefyd i ddilyn ei ol. Ond dylid sylwi fod Undodiaeth yr adeg hono yn dra gwahanol i Undodiaeth fel yr adnabyddwn ni hi heddyw. Diameu yr ystyria llawer hyd yn nod o iawnffyddwyr fod Undodiaeth diwedd y 18fed a dechreu'r 19eg ganrif yn henffasiynol. Ond fel mae blaguryn newydd y flwyddyn hon yn dod allan o hedyn y flwyddyn ddiweddaf, felly hefyd mae Undodiaeth ein dyddiau ni yn ddatblygiad naturiol o Undodiaeth y dyddiau gynt. Ond er mai hen-ffasiynol oedd yr Undodiaeth y dygwyd Emerson i fyny ynddi, nid oes amheuaeth nad oedd ganddi ddylanwad nas gellir ei fesur ar ei yrfa ddyfodol. O braidd na ellir mentro dyweyd y byddai Emerson fel yr adnabyddwn ni ef yn anmhosibl oni bai am yr awyrgylch gymharol rydd y dygwyd ef i fyny ynddi yn ei ieuenctyd. Dywedwn cymharol rydd, oherwydd yr oedd terfynau i ryddid hyd yn nod yn mhlith yr Undodiaid yn yr adegau hyny. Ond gellir dyweyd mai yn mhlith yr Undodiaid yn unig y ceid hyny o ryddid a fodolai. Yn unol a bwriad ei rieni, bu am ychydig flynyddau yn weinidog Undodaidd; ac er iddo yn fuan adael y weinidogaeth, ni thorodd ei gysylltiad a'r Enwad. Nid oedd yn Undodwr yn unrhyw ystyr gul o'r gair. Mae y fath beth ag Undodwr cul yn wrthun. Ond fel y dywed un ysgrifenydd yn un o'n cyfoesolion, "parhaodd ei ddyddordeb yn achosion yr Enwad, cyfranai yn rheolaidd at drysorfa y Gymdeithas Undodaidd Americanaidd, daliai sedd yn yr Eglwys Undodaidd yn Concord, cymerai ran mewn cyfarfodydd cysylltiedig â hi, a mynychai'r addoliad yn dra rheolaidd. Cynhaliwyd gwasanaeth ei angladd yn yr Eglwys Undodaidd, a gweinidogion Undodaidd oedd yn gwasanaethu." Ni ddywedwn hyn oll mewn ymffrost. Yn wir, ystyriwn fod pob ymgais i gylymu dyn fel efe wrth enwad neu blaid yn ymylu ar fod yn bechod. Mae dynion fel Channing, Emerson, Parker, a Martineau yn eiddo cyffredinol, ac anmhosibl eu cauad tu fewn i derfynau plaid. A phe gwneid yr ymgais byddai yn rhwym o fethu, yn enwedig yn achos Emerson. Ond er hyn, yn ngwyneb y duedd gyffredin i guddio'r ffeithiau hyn oddiwrth y cyhoedd, mae gwybodaeth gywir am hyn, fel am bob peth arall cysylltiedig â'i fywyd, yn ddyddorol, ac nis gallwn anwybyddu'r ffaith—mae yn rhy amlwg i wneud hyny—mai efe oedd y cyntaf i arwain Undodiaeth i'r awyrgylch mwy rhydd y mae ynddi heddyw, ac i alw ar ei hymlynwyr i ymddiried yn yr enaid yn hytrach nag mewn traddodiadau dynol.

Pam y gadawodd y Weinidogaeth?

Fel gweinidog ar eglwys Gristionogol, gelwid arno i weinyddu'r gwasanaeth a elwir yn gyffredin yn "Swper yr Arglwydd." Mwynhai y rhyddid llawnaf i draethu ei feddyliau ei hun mewn perthynas i wirioneddau ac egwyddorion mawr crefydd. Ond blinid ef gan

amheuon parthed llawer o'r syniadau a'r arferion a ffynent yn yr eglwysi, hyd yn nod rhai o'r syniadau a'r arferion a ffynent yn yr Eglwysi Undodaidd. Ar y 9fed o Fedi, 1832, traddododd bregeth yn yr hon y datganodd ei anallu i weinyddu'r gwasanaeth uchod, ac y rhoddodd ei resymau dros hyny. Yn y lle cyntaf, daliai na fwriedid i'r gwasanaeth i fod yn sefydliad parhaol yn yr Eglwys; yna, ei fod yn anaddas i feddu un dylanwad arnom ni, ac fod cydffurfiad ag ef yn tueddu i wneud crefydd yn fater o ffurfiau difywyd. Ni ddywedwn ddim yn erbyn i eraill a ewyllysiant i lynu wrtho; ond yr oedd yn wasanaeth hollol amddifad o bob dyddordeb iddo ef; a chan fod y mwyafrif o'r gynulleidfa yn anmharod i gymeryd cam mor bwysig a llwyr-ymwrthod â'r ddefod, teimlai mai ei ddyledswydd ef oedd ymneillduo. I'r sawl sydd gyfarwydd ag Emerson drwy ei weithiau a'r aml fywgraphiadau o hono, ni achosa hyn un syndod, oherwydd ni apeliai ffurfiau crefydd ond ychydig ato. Bywyd yr enaid oedd y cwbl iddo ef.

Safle Grefyddol Emerson.

Ar y 15fed o Orphenaf, 1838, traddododd anerchiad yn Ngholeg Duwinyddol Harvard (U.D.) Yn yr anerchiad hwn gwelwn beth oedd safle grefyddol Emerson. Anhawdd iawn rhoi crynodeb o honi mewn ychydig eiriau. Gellir ei galw gyda'i gilydd yn ddadl (*plea*) dros uwchafiaeth yr enaid mewn crefydd, hanfod yr hon yw ffyddlondeb i'r llais dwyfol yn yr enaid. Nid yw gwirionedd a dderbynir ar awdurdod dynion ereill yn wirionedd i ni. Rhaid dwyn pob gwirionedd ger bron gorsedd barn yr enaid, a'i dderbyn neu ei wrthod yn ol y ddedfryd. Siaradai Cristionogion am ddatguddiad fel rhywbeth wedi ei roddi yn mhell yn ol, ac fel pe fod Duw wedi marw. Gwaith y gwir ddysgawdwr yw dangos i ddynion fod Duw yn bodoli yn awr, a'i fod yn llefaru wrth ddynion heddyw fel erioed. Ni thalai'r eglwysi un sylw i'r enaid; tybid yn gyffredinol fod oes ysprydoliaeth wedi myned heibio, a fod y Beibl wedi ei gau am byth er's canrifoedd lawer yn ol; ofnid y diraddid yr Iesu trwy ei osod allan fel dyn—yr oedd hyn oll (meddai) yn arwydd sicr fod yr eglwysi wedi colli eu golwg ar eu gwir neges. Yn yr anerchiad hwn hefyd, cawn y syniad am ymgnawdoliad ag sydd yn y dyddiau hyn yn dechreu cael ei gydnabod gan nifer gynyddol o iawnffyddwyr fel y syniad iawn, fod Duw, nid wedi ymgnawdoli yn unig yn Iesu o Nazareth, ond ei fod yn ymgnawdoli, ac wedi gwneud hyny erioed, yn mhob dyn yn y graddau y bydd yn cynyddu mewn daioni. Yr oedd hyn oll yn hollol newydd, hyd yn nod i Undodiaid; ac arweiniodd i ddadl hir a chwerw hefyd mewn llawer o amgylchiadau. Nis gallwn lai na sylwi ar y mesur helaeth y mae'r eglwysi wedi eu lefeinio gan syniadau aruchel yr anerchiad hwn. Dyma eiriau un o'i fywgraphwyr: "Un fer oedd ei gredo, ond elai a hi gydag ef i bob man. Yn mhob peth a wnelai ac a ddywedai, yn ei holl feddyliau, yr enaid a drigai ynddo oedd ei oleuni a'i arweinydd; trwy natur edrychai i fyny at Dduw natur; ac

os nad oedd yn addoli "y dyn Crist Iesu," fel mae'r Eglwysi Cristionogol wedi wneud, dilynai ei ol mor agos fel y dywedodd y Tad Taylor, un o Fethodistiaid enwocaf Boston, ei fod yn fwy tebyg i Grist na neb oedd ef wedi adnabod." Beth yw swm hyn oll? Onid hyn? Ymddiriedaeth berffaith yn Nuw, "y byth fendigedig Un," fel y galwai efe Ef; credai fod y Duw hwn yn amlygu ei hun i bob enaid dynol heddyw fel erioed; ac mai bywyd o ufudd-dod llwyr i gyfarwyddiadau llais Duw yn yr enaid yw'r ffurf berffeithiaf posibl o fywyd. Mae'r gredo hon yn fer, ond mae yn ddigon, a hon oedd credo Emerson.

Fel Darlithydd ac Awdwr.

Dechreuodd ei yrfa fel darlithydd cyhoeddus pan oddeutu 30 oed; a pharhaodd hyd o fewn i ychydig i'w farwolaeth. Llanwai llechres gyflawn o'r testynau y siaradai arnynt amryw dudalenau; a gwnai yn amlwg eangder ei wybodaeth. Mae y rhan fwyaf wedi eu cyhoeddi, ac o fewn cyrhaedd pawb: ac nid yw un llyfrgell yn gyflawn heb un neu ragor o honynt. Ac yn ystod y gweddill o'r flwyddyn bresenol, argymhellwn i sylw ein darllenwyr ieuainc, yn enwedig, un awgrym a wnawd gan un ysgrifenydd yn ddiweddar, fod dysgyblion ac edmygwyr Emerson yn gwneud o leiaf un o'i lyfrau yn destyn myfyrdod trwyadl. Perthyn i'r oll o'i weithiau y fath swyn a'i gwna yn anmhosibl, unwaith y teimlir ef, i ymwrthod mwyach a'r pleser o'u darllen. Ac anmhosibl eu darllen heb dderbyn budd.

Ei genadwri.

Cyfeiriwyd ar y dechreu at ddesgrifiad un o lenorion blaenaf Lloegr o natur gwaith neu genadwri Emerson. Credwn nad yw'r desgrifiad yn mhell o'i le; er, wrth ei ddarllen, y llecha rhyw amheuaeth yn ein mynwes nad yw yn hollol foddhaol. Ond anhawdd efallai rhoi ei well mewn ychydig eiriau; ac os yw Arnold wedi methu, ofer yw i ni i wneud yr ymgais. Os bu gweledydd neu brophwyd erioed, yr oedd Emerson yn un. "Gweled beth bynag a allaf, a chyhoeddi yr hyn a welaf," dyna ddesgrifiad Emerson ei hun o'i waith a'i genadwri. Onid hyn yw gwaith y gweledydd a'r prophwyd?—Gweled a chyhoeddi. Ni thrafferthai i roddi rhesymau dros yr hyn a ddywedai. Gwrandawai ar sibrydion yr enaid, a rhoddai ddatganiad iddynt yn nghlyw ei gyd-ddynion, gan ymddiried y canlyniadau i ysprydolydd y meddyliau. Erchai i ddynion i beidio gorphwys ar y gorphenol, ond ymddiried yn ngalluoedd yr enaid, a bod yn ffyddlon i'w gymhelliadau. Yr oedd hyn yn un o anghenion mawr ei ddydd ef. Mae hefyd yn un o anghenion mawr y dyddiau hyn. Ac y mae eisiau gweledyddion a phrophwydi i ail-gyhoeddi yr un genadwri eto.



NYTH Y FRAN.

Gosodir yn gyffredin Undodiaid ydynt wedi croesi y llinell derfynol rhwng y ddau fyd mewn tri dosparth. (1) Mae nifer fawr yn marw yn Undodiaid, yn myned yn *straight* i uffern, ac erbyn eu bod yno, yn gweled eu camsyniad, ond yn rhy ddiweddar, a chri eu hedifeirwch yn rhoddi lle i'r teimlad anobeithiol, nad oes

DIM UN MAN OND DAEAR

i Undodwr i osod ei droed i lawr arno. (2) Mae wedi bod yn arferiad i ddweyd mai dim ond ychydig sydd yn marw yn Undodiaid, a bod dosparth helaeth o honynt yn gweled eu camsyniad ar yr unfed awr ar ddeg, yn edifarhau am eu heresi "rhwng y bont a'r afon," ac yn cael gafael yn y tywyllwch ar "gilfach a glàn iddi" i landio i'r diogelwch bythol, fel rhai ar ddarfod am danynt. (3) Mae yna nifer fawr o Undodiaid ydynt wedi ysgrifenu eu henwau yn ddwfn mewn hanes, eu bywydau mor amlwg wedi eu cuddio gyda Christ yn Nuw, ac wedi gadael dylanwad mor iachus a bendithiol ar eu hol, fel mae dipyn yn *ddelicate* i awgrymu y bydd Duw yn

DAMNIO I UFFERN DRAGWYDDOL

ddynion mor debyg iddo Ef ei hunan mewn pob nodwedd ddwyfol. Nid oedd Dafis Castellhywel yn credu yn iawn, nid oedd yr un elfen achubol yn ei ffydd yn ol y dybiaeth gyffredin; ond yr oedd yn ddyn iawn yn ol tystiolaeth pawb; beth bynag gredai ef, yr oedd ei ffrwyth yn sancteiddrwydd, yn bobpeth dymunol sydd yn tyfu ar bren Cristionogaeth; a darfu i *logic* anwrthwynebol y sefyllfa arwain rhyw bregethwr "Methodis" yn yr un oes ag ef, calon yr hwn oedd

YN LLETACH NA'I GREDO

i roddi stol dair troed iddo tu cefn i ddrws y nefoedd, nid yn nghanol y ddawns a'r wledd mae'n wir, ond yn mhell o'r "tywyllwch eithaf" er hyny. Gelwir Channing a Martineau yn ddynion duwiol, yn brophwydi ac yn saint y bedwaredd ganrif ar bymtheg er gwaethaf eu heresi; ac nid yw pobl ag sydd yn credu mor wahanol yn petruso rhoddi lle da iddynt yn y byd a ddaw. Meddai rhywun wrth Father Taylor, y gweinidog Wesleyaidd enwog yn Boston: "Beth ydych chwi yn feddwl ddaw o Emerson pan y gelwir ef allan o'r byd yma? Mae e'n credu pethau rhyfedd iawn ac yn dweyd pethau rhyfedd iawn, pethau mor groes i'r hyn a ystyrir yn hanfodol i iachawd-

wriaeth." Yr oedd Father Taylor yn adnabod Emerson yn dda ac atebodd "Ydyw, ydyw, mae e' ; ond wn i ddim beth

WNAI Y DIAFOL O HONO,

pe buasai 'fe yn ei gael i'w ffau ; ac o'm rhan fy hun, os ydyw pobl fel Emerson yn myn'd i uffern, synwn i na newidiai y *climate* ac y byddai tynfa pobloedd ar eu hol hwy yno." Ond rhaid cofio nad yw hyn ddim yn golygu fod Undodiaid fel y cyfryw yn grefyddwyr *respectable*, eu bod yn un peth heblaw "estroniaid oddi wrth amodau yr addewid, heb obaith ganddynt ac heb Dduw yn y byd." Ffashiwn y newyddiaduron sydd yn awyddus i ochelyd y warthnod Undodaidd ac ar yr un pryd i gydnabod y dynion mawr yma sydd wedi codi i fyny yn mhlith yr Undodiaid, yw dweyd mai nid dynion sect ydynt ; eu bod wedi ymgodi uwchlaw sect, ac wedi tyfu tuallan i sect i'r fath raddau fel maent wedi colli yr anfanteision a'r diffygion moesol ac ysprydol i'r rhai mae dynion llai, pan wedi eu cau tufewn i hualau sect mor ddi-grist a diras a diarddeliad, yn cael eu darostwng. Dywedodd Channing unwaith mewn cysylltiad neillduol, mai "ychydig o Undodwr oedd ef." Dim ond ychydig o drais ar y gwirionedd sydd yn eisiau er mwyn gwneud allan nad oedd Channing ddim yn Undodwr o gwbl. Arferai Martineau ddweyd, er addef ei fod yn Undodwr ei hun, ei bod yn

HOLLOL GROES I'W EGWYDDORION EF

i fod yn weinidog ar gynulleidfa Undodaidd ; ac mae'r *journalists*, ydynt mor awyddus i ffeindio unrhyw beth i fychanu Undodiaeth, yn rhedeg ymaith yn y man gyda'r syniad fod Martineau wedi dadgysylltu ei hun oddiwrth lyffetheiriau enwad, ei fod yn grefyddwr rhydd, ac mewn mwy o gydymdeimlad a chyfundebau uniawngred na'r enwad y perthynai iddo. Rhoddir cyhoeddusrwydd neillduol i enw

RALPH WALDO EMERSON

yn y papyrau yn y dyddiau hyn, gan fod canmlwyddiant ei enedigaeth yn syrthio ar y 25ain o Fai, 1903. 'Rwyf wedi gweled cyfeiriad at y mater mewn amryw bapyrau Cymraeg ; ac mae'n syndod mor ofalus mae'r ysgrifenwyr i ochelyd unrhyw gyfeiriad at ei gysylltiadau Undodaidd. Emerson oedd prif gymeriad llenyddol yr Unol Dalaethau yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, fel yr oedd Carlyle yn Mhrydain Fawr. Yr oedd felly yn rhy fawr i'w anwybyddu ; ac yr oedd canmlwyddiant ei enedigaeth yn teilyngu sylw ; y cwbl yn eisiau oedd bod yn ofalus wrth roddi manylion ei hanes, fel ag i beidio briwo teimladau darllenwyr ydynt mor hwyrfrydig i gredu fod yr Hollalluog yn cyfranu ei ddoniau a'i rasusau mewn ffordd mor anmhleidiol fel ag i gynhwys Undodiaid yn mysg eu derbynwyr ambell i dro. O ran ei gysylltiadau enwadol, ni fu Emerson erioed yn ddim ond Undodwr—un Radicalaidd, a hollol anibynol, mae'n wir, fel ei gyfaill Theodore Parker. Ganwyd ef mewn teulu Undodaidd. Yr oedd ei dad yn weinidog Undodaidd ; cafodd ei addysg yn Harvard, y brifysgol Undodaidd, ac wrth draed athrawon Undodaidd bu yn astudio Duwinyddiaeth yn yr *Harvard Divinity School*. Yn 1829 cafodd ei ordeinio yn weinidog ar Eglwys Undodaidd yn Boston—y *second Church*. Torodd ei gysylltiad a hi mewn tair blynedd a haner, oblegid nad oedd ef a'r Eglwys yn cytuno gyda golwg ar y dull priodol o weinyddu Swper yr Arglwydd. Bu yn pregethu yn achlysurol mewn capeli Undodaidd am ryw ddeg mlynedd ar ol hyn. Yn y cyfamser yr oedd wedi cael allan

MAI EI GENHADWRI EF

oedd darlithio ac addysgu pobl o'r llwyfan cyhoeddus trwy hyd a lled yr Unol Dalaethau yn mhethau uwch yr yspryd. Yn ystod rhan o'r cyfnod hwn, darfu iddo roddi rhyw reswm i'r

rhai ydynt yn ceisio dadgysylltu ei enw oddiwrth ei gysylltiadau Undodaidd. Mae'n eithaf tebyg nad oedd yr yspryd ceidwadol, a nodweddai lawer iawn o arweinwyr yr enwad ar un adeg, yn ei foddloni ef mwy na'i gyfaill, Theodore Parker. A chawn nad oedd am rai blynyddau yn mynychu yr addoliad cyhoeddus. Ond flynyddoedd lawer cyn ei farwolaeth yr oedd yn aelod rheolaidd o'r *First Parish Church* yn Concord lle yr oedd yn byw, ac yn hynod ofalus am ei gydgynulliad. Yr oedd yn aelod hefyd o'r Gymdeithas Undodaidd Americanaidd hyd y diwedd a chyfranai yn rheolaidd at ei thrysorfa ; a phan y bu farw, gweinidogion Undodaidd yn naturiol a weinyddent yn ei angladd. Mewn gair, fel y dywedodd Augustine Birrell pwy ddydd yn ei ddarlith ar Emerson yn Essex Hall :—"Efe oedd

YR UNDODWR MWYAF FAGODD BOSTON ERIOED,"

ac nis gwn am un lle unigol a fagodd gymaint o Undodiaid yn y ganrif sydd wedi pasio. Nid yn unig efe oedd yr Undodwr mwyaf a fagodd Boston, ond gallwn ddweyd yn mhellach, mai efe oedd y pregethwr mwyaf—oblegyd pregethwr fu e' trwy ei oes yn yr ystyr uwch, gyffredinol,—ie, a'r prophwyd mwyaf, a ymddangosodd yn yr oes hon. 'Doedd e' ddim yn bregethwr mawr yn yr ystyr yr oedd Beecher yn bregethwr mawr. Yr oedd yn ormod o flaen ei amser i sicrhau y fath dyrfa o ganlynwyr ag oedd hyawdledd Beecher yn apelio atynt. Yr oedd Spurgeon yn bregethwr mawr, ac yn alluog i gadw ryw bum mil o bobl

YN HOELIEDIG WRTH EI WEFUSAU

o Sul i Sul. Yr oedd James Martineau yn pregethu ar yr un adeg yn Llundain i ryw dri neu bedwar cant o bobl ; ond mae James Martineau wedi bod yn alluog i ddylanwadu ar feddwl ei oes fil o weithiau yn fwy na Spurgeon. Mae rhai dynion fel cawod o wlaw yn syrthio ar dir sych, yn cael ei llyncu i fyny i'r *soil* ac yn diflanu ac nid oes son am dani. Mae ereill fel y ffynon yn nghesail y mynydd, yn dechreu ei thaith, yn tyfu i fod yn ffrwd, ac o fod yn ffrwd, yn nant, ac wedi'n yn afon fawr sydd yn rhuthro heibio trefi a dinasoedd, yn bendithio preswylwyr ei glanau, ac yn cludo marsiandiaeth y gwledydd ar ei mynwes. Mae mawredd Emerson

FEL MAWREDD Y FFRWD,

a dechreuodd yn nghilfach dywyll y mynydd, ac a ddybenodd yn y mor sydd yn golchi holl gyfandiroedd y ddaear. Nid rhyfedd ynte i Deon Stanley, pan ar ddiwedd ei ymweliad ag America yn 1878, ateb fel hyn i ofyniad a roddwyd iddo yn nghylch y pwlpud Americanaidd. Dywedodd ei fod wrth gwrs wedi gwneud defnydd o bob cyfleusdra i wrandaw ar bregethwyr Americanaidd. Yr oedd wedi clywed pregethwyr enwog braidd yn mhob enwad. "Ond," meddai Stanley, "nid oedd wahaniaeth pa enwad, y pregethwr bob amser oedd Waldo Emerson," gan olygu wrth gwrs fod dylanwad addysg Emerson wedi gwneud ei ol ar bob pregeth, y cafodd y fraint o wrando arni. Beth oedd yr addysg hono neu ynte beth oedd y genadwri neillduol oedd gan Emerson i'w oes ei hun ac i'r oesau? Y syniad mawr a daflai ei liw ar holl bregethu Dr. Channing oedd

URDDAS Y NATUR DDYNOL.

Egwyddor ganolog Henry Ward Beecher fel pregethwr oedd ei ffydd yn nghariad cyffredinol Duw at ei holl greaduriaid, a'i argyhoeddiad fod pawb o bob oes a chenedl yn blant i Dduw, yn werth eu hachub ac yn gymhwys i gael eu hachub. Feallai mai yr agoriad i athroniaeth grefyddol Dr. Martineau yw rhyddid yr yspryd dynol, a'r teimlad o gyfrifoldeb moesol fel dadguddiad o Dduw, yn gystal ag o'r cymhwysderau a'r

posiblrwydd; dwyfol sydd yn natur dyn. A allwn ni ddim yn yr un modd osod ein llaw ar ryw un egwyddor neu gwlwm cysylltiol o egwyddorion sydd yn crynhoi at eu gilydd sylwedd addysg Ralph Waldo Emerson? Mae'n digwydd fod dyn mawr yn dyfod i'r golwg ar ei oreu mewn ryw un datganiad nodweddiadol sydd yn dangos yr agweddau neillduol ag mae gwirionedd Duw mewn natur ac mewn bywyd wedi cynyg eu hunain i'w sylw. Rhywffordd neu gilydd, oherwydd rhesymau hanesyddol, ac feallai resymau uwch teilyngdod a gwerth, ymddengys fod pregeth fawr Channing yn Baltimore yn 1819—"*A shot heard round the world*" wedi taflu ei bregethau ereill i'r cysgod. Pregeth fwyaf adnabyddus, er nad y mwyaf gwerthfawr, o eiddo Theodore Parker oedd yr hon a draddododd yn South Boston yn 1843 ar "Y Diflanol a'r Arosol mewn Cristionogaeth." Pregeth fawr John Caird, a phregeth fwyaf y ganrif ddiweddaf, medd Deon Stanley, oedd yr hon a draddododd efe o flaen y Frenhines yn 1855 ar "Grefydd mewn bywyd cyffredin." Y bregeth sydd yn debyg o fyw yn hwy na holl bregethau ereill Dr. Martineau yw yr un enwog hono dan y penawd

"THE TIDES OF THE SPIRIT."

Testyn mawr John Jones, Talsarn, oedd "Pa leshad sydd i ddyn os enill efe yr holl fyd a cholli ei enaid ei hun," ac ymddengys fod holl ymadferthoedd enaid Dr. Lewis Edwards wedi eu tywallt i un ymdrech ar eiriau Paul—"Ffydd, gobaith, cariad, y tri hyn, &c.," yn Nghymdeithasfa Castellnewydd Emlyn yn 1861; a chredwn fod holl gyfoeth a melusder natur Gwilym Marles, ar ol ei gweddnewid a'i gogoneddu gan ofidiau a threialon chwerw diwedd ei oes, wedi eu

DISTYLL YN FFRWD ADFYWIOL

i'r bregeth ryfedd hono ar "Ein Duw ni sydd dân ysol" a bregethodd efe yn Nghyfarfod Chwarterol y Cribyn yn Hydref, 1878. Yn wyneb yr engreifftiau uchod, nid annaturiol i ni chwilio trysorau llenyddol Emerson er mwyn gosod ein llaw ar ryw un datganiad sydd yn nodi cyfnod pwysig yn hanes ei ddatblygiad, ac ar yr un pryd yn cynwys crynodeb o'r egwyddorion hyny ag oedd angenion gwaeddfawr yr oes yn grio am danynt.

Y FRAN.

(*I'w barhau yn y nesaf.*)

GWEINIDOG Y MYNYDD.

GAN TUDFATHAR.

VII.

Ni redodd nant yn *syth* erioed,
Wrth deithio tua'r lli';
Dros fryn, drwy bant, dan graig, îs coed
Dyna ei hanes hi.
A thyna hanes mab a merch :—
Un gwyrgam iawn yw llwybr serch.

Yr oedd amser dychweliad Nwyfa i Goleg Abertaf yn ymyl, a throai ei chyfeillion i mewn i'w gweled yn aml cyn ei myned ymaith. Yr oedd Nwyfa yn ffafret gan holl bobl Llwydfaen, o fawr i fach. Yn wir yr oedd

croesaw i bawb, boent Fethodistiaid a'u peidio, yn nhy Mr. Humphrey Roberts. Anaml y byddai efe i'w gael allan o'r *study*, ond yr oedd Mrs. Roberts yn hoff o gwmni 'yn ei chalon.' Yn wir nid oedd ganddi wrthwynebiad mawr i ychydig glebran a gwragedd y pentref am fân helyntion y gymdogaeth. Yn hyn o beth yr oedd Miss Howells a Mrs. Roberts yn cytuno i'r dim. Wrth gwrs 'doedd Miss Sophia Howells, chwedl hithau 'ddim yn *condescendo* i gymeryd rhan yn *gossip* a *small talk* y pentref, ond yr oedd hi, fel pob dynes o *human sensibility* yn cymeryd *living interest* yn ei *fellow beings*.' Yn y modd hwn, os byddai Deio'r Gô druan wedi cymeryd peint yn ormod rhyw nos Sadwrn, neu ferch y *Post Office* wedi ei gweled yn myned am dro ar lan yr afon gyda Mr. Hwn a Hwn, neu fab y Siop wedi twyllo Miss Hon a Hon, a myned gyda Miss Beth Fynoch Chwi, a bod sî fod Miss Hon a Hon yn siwr o 'godi gwaddol' am hyny —byddai Mrs. Roberts yn gwybod yr hanes i gyd cyn pen pedair awr ar hugain. Yr oedd Miss Howells yn ymwelydd cyson yn nhy Mrs. Roberts er's blynyddau, ac yr oedd gwraig y gweinidog Methodistaidd wedi 'cymeryd i mewn' lawer iawn o syniadau cymdeithasol uchel merch yr offeiriad. Fel y cyfeiriasom eisoes nid oedd mam Nwyfa wedi cael dygiad i fyny a fyddai yn ngeiriau Miss Howells eto, yn ei '*chwaliffyo am high social position*,' ac am hyny yr oedd yn fwy parod i lithro yn nghyfeiriad delfrydau merch y Ficer. Er hyny yr oedd yn wraig o natur wir dda, ac yn gwneud i fyny i raddau am dymer sûr ac anllyfn ei gwr culfarn, ond talentog. Yr oedd Nwyfa wedi etifeddu natur dda ei mam, a thalent ei thad, a synwyr cyffredin y ddau. Felly digwyddiad ffortunus fu i Miss Howells awgrymu i Mrs. Roberts y dylai ei hunig blentyn gael '*college education*, a digon o *good mental training* yr un fath a'i brawd Sidney.' Yr oedd Miss Howells wedi gosod yn mhen Mrs. Roberts hefyd mai gwneud *good match* oedd diwedd yr addysg hon i gyd, ac yn mhellach drwy yr awgrymiadau distaw ond effeithiol hyny nad oes ond dynes yn feistres arnynt—mai Mr. Sidney Howells oedd y *match* hwnw i fod yn y diwedd. Y canlyniad oedd fod Mr. Sidney Howells yn ymwelydd derbyniol iawn ar aelwyd Mrs. Humphrey Roberts. Wrth gwrs nid oedd yn mwriad Mrs. Roberts ddwyn y berthynas rhwng ei merch a Sidney yn agosach na chyfeillgarwch agos, neu o fwyaf rhyw garwriaeth ddiniwed am rai blynyddau ; nid oedd Nwyfa eto ond plentyn ugain oed, ys dywedai ei mam. Wrth gwrs, nid hir fu sôn am garwriaeth Nwyfa a Geraint Jones cyn dod i'w chlustiau, hyny yw stori oedd ar led y gymdogaeth, wedi ei phaentio a'i chaboli gan grebwyll creadigol mynwotach yr ardal. Yr oedd Miss Sophia Howells hithau wedi bod yn cydeistedd gyda Mrs. Roberts mewn barn ar y cwestiwn.

'Nid wyf yn meddwl y bydd i ferch fel Nwyfa fyn'd yn *engaged* i ddyn o *bosition* Mr. Jones y Mynydd, Mrs. Roberts. Wrth gwrs, mae'n ddigon posibl ei fod yn fachgen *nice*, ond 'rych chwi'n gwel'd, *Unitarian* yw e', ac rwy'n siwr na fuasai Mr. Roberts byth yn caniatau i'w ferch *allyo* ei hunan a Sosin. Ond gwaeth na hyny, Mrs. Roberts, bachgen tlawd yw e', *common carpenter* oedd e' cyn myn'd i bregethu, *and it will never do* i ferch fel Nwyfa fyned gyda dyn o *mean extraction* fel yna. Ddaw e' byth i enill *salary* o fwy na rhyw *hundred and fifty a year*, ac y mae pob *collier* yn *South Wales* yn enill cymaint a hyny yn awr. Dyna *Sidney* fy mrawd, *for instance*, wedi cael *good School Education and bringing up*, ac yn *Oxford man* : 'dyw ef ddim wedi dechreu enill dim eto, ond pan gaiff fantais i ddechreu, pa un ai myn'd i fewn am *Holy Orders* neu cael ei alw i'r *bar* fydd ei ddiwedd, bydd mewn *position* i *gommando salary of many hundreds of pounds*. Ac y mae Nwyfa yn *fit* i gymeryd *position* gwell na gwraig i bregethwr Sosin, Mrs. Roberts,' ac yn y blaen

Y canlyniad oedd fod Sidney Howells yn cael croesaw mwy calonog nag erioed i'r ty ; a mawr ddifyrwch a gawsai Mrs. Roberts wrth wrando arno yn adrodd *Oxford yarns*, ac yn myned dros ei wrhydri ar gae'r bêl droed, ac yn bostio'r modd, ys dywedai yntau y byddai yn arfer *dodgo'r Oxford Dons*. Deuai i fewn yn yr hwyr, gan ysmocio ei bibell gam fawr, a'i *Norfolk strap* yn hongian o'r tu ol, ac eisteddai yno am oriau, a byddai'n rhaid i Nwyfa, o foesgarwch, eistedd yno gyda'r cwmni, gan wneud ychydig wniadwaith, neu efallai wau hosan gyda'i mam. Elai'r fam allan weithiau o'r ystafell gan adael Nwyfa a Sidney wrth eu hunain, ac yr oedd hwn yn amser poenus i Nwyfa, er nas beiddiai gyfaddef hyny.

Yr oedd wedi bod yn gyfeillgar a Sidney erioed, ond yn ddiweddar, am resymau oeddynt yn fwy amlwg i Nwyfa na'r rhan fwyaf o bobl y pentref, yr oedd wedi myned yn adgas yn ei golwg ; ac yr oedd y ffaith fod ei mam yn ffafrio sylw Sidney i'w merch yn ychwanegu at y casineb a deimlai at y boneddwr ieuanc hwn. Gwna dewisiad y rhieni y tro o'r goreu yn Ffrainc, ond gan ferched anibynol yr ynys hon, y mae oesau o ryddid wedi gosod materion y galon yn bethau rhy gysegredig hyd yn nod i'w rhieni ymyryd a hwy. Am serch calon gynes geneth :—

> —Nid aur,
> Nid arian a'i pryna :
> Dwl i ddyn yw dadleu'i dda—
> Cofiwn adfyd Cefn Ydfa.

Anaml erioed y dewisodd mam gariadlanc i foddio ei merch ; yn wir y mae'r *dewis* yn *nesaf* peth i'r *caru* gan ferched mynyddoedd Cymru. Felly am Nwyfa a Sidney Howells hyd yn hyn ; yr oedd serch yr eneth wedi ei gloi tuag ato, yn rhanol am ymyraeth y fam, yn rhanol am ffolineb Sidney ei hun, ac yn rhanol am reswm arall y gŵyr y darllenydd yn dda am dano. Nid oedd Sidney yn wr o allu mawr, ond yr oedd wedi gweled ychydig o'r byd drwy gyfrwng yr ysgolion y buasai ynddynt ; a meddai un gallu pe bai ond yn ei ddefnyddio, sef cyfrwysdra, fel cyfrwysdra y sarff. Fyth er y noswaith hono y cafodd *snub* gan Miss Nwyfa Roberts, yr oedd dyfnderoedd ei natur wedi eu cyffroi, a phenderfynodd gael ei ddial ar Nwyfa, ac hefyd ar Geraint Jones y Mynydd. Bu am nosweithiau yn effro yn tynu allan gynllun i ddwyn ei amcan i ben, ac o'r diwedd cafodd o hyd i lwybr wrth ei fodd ; pa beth oedd y llwybr hwnw a ymddengys yn fwy amlwg yn y gweddill o'r hanes. Daeth i'r penderfyniad mai'r moddion i gyrhaedd ei amcan oedd cyfrwysdra distaw, didwrf ; effaith araf ond sicr, fel math o wenwyn a weithia i mewn i'r cyfansoddiad heb yn wybod, ond o'r diwedd a gyrhaedda gydag effaith marwol, linynau cysylltiad y corph a'r enaid.

Gosododd Sidney Howells, ynte, un nôdfawr o'i flaen mewn bywyd, sef tynu Nwyfa a Geraint Jones i warth, gan ofalu *cadw y ddau ar wahan*. Penderfynodd, gan hyny ddechreu ar waith ei fywyd ar unwaith, gan ddechreu gyda Mrs. Humphrey Roberts. Tarawodd i mewn i'r ty noswaith neu ddwy cyn ymadawiad Nwyfa, a'i bîb yn ei safn, fel arfer :—

" Nos da, Mrs. Roberts, sut mae Mr. Roberts a Nwyfa ?"

" O chwi, Sidney, sydd yna, eisteddwch i lawr, mae Wmffre yn brysur yn ei *study*, ac mi ddaw Nwyfa i fewn yn y fan, nid yw ond wedi myned i'r *Post Office*."

" Mae Nwyfa yn myned yn ol i Abertaf dydd Llun on'd yw, Mrs. Roberts ; mi fydd yn anodd genych 'madael a hi 'nawr wedi bod gartre' am dri mis ?"

" Bydd, Sidney, ond y mae'n rhaid iddi fyn'd yn ol at ei gwaith, oblegid mae arni flys gorphen i *degree* yr haf nesaf. Fydd Nwyfa ddim yn hapus nes cael y B.A. ar ol ei henw, fel 'ychwithau. *Dear me*, fel mae plant yn cael addysg yr oes yma. Chefais i ond rhyw ran o ddwy neu dair blynedd yn yr ysgol erioed, ac

ychydig o help allaf i wneud i Wmffre gyda'i lyfrau; ond am Nwyfa mi fydd hi yn help mawr i rywun, boed gymaint o ysgolhaig a fo, os caiff hi fywyd ac iechyd, druan fach."

"Eithaf gwir, Mrs. Roberts, 'rych chwi yn llygad eich lle; ond mae gwraig o synwyr cyffredin, fel y chwi, yn fwy o werth na dynes a holl lythrenau'r Wyddor ar ol ei henw. Nid am fod Nwyfa yn mron a bod yn B.A., oblegid mai gan Nwyfa ddigon o synwyr cyffredin heblaw gwybodaeth. Eto i gyd, Mrs. Roberts, nid wyf fi'n credu fod y coleg yn ddiberygl i ferched ieuainc. Y maent yn cael cymaint o ryddid yno; ac y mae temtasiynau lawer iawn yn cael eu rhoddi ar ffordd genethod dibrofiad o'r wlad yno. Y mae llanciau o Loeger yn dod yno, nid yn gymaint er mwyn addysg ag er mwyn difyrwch—yr hyn alwant hwy yn *general culture*, a mwy nag unwaith y mae bechgyn o'r fath wedi gwneud ffwl o ryw eneth syml o ganol Sir Gaer neu Sir Aberteifi?

Ac yn y blaen; siaradai Sidney Howells gydag hyawdledd, gan fyned i mewn yn drwyadl i hanes geneth a yrasid o'r coleg rhyw fisoedd cynt am ryw gam helynt, gan roddi ychwanegiadau o natur apocryphaidd at y stori, a dal i fyny'n wresog yr hen ddull o addysgu merched yn y *Boarding Schools*, fel yn amser ei chwaer Sophia. Gosododd Sidney yrfa golegawl Nwyfa mewn goleu newydd o flaen Mrs. Roberts, gan beru cryn anesmwythdra meddwl iddi o'r herwydd, a daeth hyn yn naturiol ag helynt Nwyfa a Geraint Jones i feddwl y fam.

"Ydych chwi wedi cwrdd a Mr. Jones, gweinidog y Mynydd eto, Sidney?"

"O ydwyf, yr wyf wedi bod yn rhoddi tro am dano fwy nag unwaith wedi iddo gwrdd a'r anlwc hwnw. Y mae yn fachgen *nice* iawn, meddai pawb."

"Ydynt, y maent yn dweyd mai bachgen hyfryd yw e', er mai dim ond bugail ar "ddefaid duon" y Mynydd ydyw e.' Yn sicr, dylai Nwyfa, uwchlaw neb, gredu hyny, gan ei bod yn ddyledus iddo am ei bywyd."

"Nis gwn am hyny, Mrs. Roberts. Os oedd Mr. Jones yn dewis sefyll ar ffordd *bicycle* Nwyfa, a gadael iddi syrthio arno, nis gwn fod ganddo neb ond ei hun i'w feio, ond modd rhyfedd yw hyny i achub bywyd onide? Rhywbeth fel taflu rhywun i'r afon, ac yna neidio ar ei ol i'w dynu allan drachefn. Ond er hyny cafodd anlwc cas, ac y mae'n haeddu cydymdeimlad?"

"A oes ryw wir yn y stori ei fod yn talu sylw neillduol i Nwyfa yn ddiweddar? Nid wyf yn leicio gofyn iddi hi, ond yr wyf wedi clywed rhyw si yn yr ardal i'r perwyl hyny?"

"Anmhosibl, Mrs. Roberts. Yn gyntaf, nid yw Mr. Jones ond pregethwr Sosin tlawd; tlawd ydyw yn fydol ac yn grefyddol; yn ail, y mae gwahaniaeth mawr mewn oedran rhwng Mr. Jones a Nwyfa; ac yn drydydd ac yn olaf, Mrs. Roberts, ag arfer geiriau pregethwr, *y mae Geraint Jones yn briod*."

"Yn briod! tewch a son, Sidney, ac heb ddweyd gair wrth neb yn y gymdogaeth, hyd yn nod ei aelodau ei hun yn y Mynydd. Yr ydych yn fy synu, Sidney, ac yn fy nychrynu hefyd. A meddwl ar yr un pryd am y stori sydd ar led y gymydogaeth fod Nwyfa ag yntau wedi syrthio mewn cariad a'u gilydd. *O! dear*, y mae'r newydd yn siwr o dynu gwarth bythol ar fy merch anwyl i!"

"Peidiwch terfysgu dim Mrs Roberts. Yr wyf wedi dweyd y cyfan wrth Nwyfa, ac y mae hi'n gwybod yn dda, ac nid oes berygl iddi hi ddod i warth o herwydd hyny. 'Does eisiau i chwi ddweyd dim gair wrthi hi ar y mater; yn ddiamheu yr ydych wedi sylwi ei bod yn fwy gwelw ac absenol ei meddwl yn ddiweddar, ac y mae hyn i gyfrif am hyny. Nid am fod *dim* yn y stori fod Geraint Jones a hithau wedi bod fwy yn nghwmni eu gilydd nag a ddylasent. Anwiredd yw'r

oll o hyny. Ac y mae'r wybodaeth o'i diniweidrwydd yn dal Nwyfa i fyny. Peidiwch hidio dim, 'does berygl yn y byd, Mrs. Roberts. Ond gofalwch beidio yngan gair wrth neb. 'Does neb ond tri yn yr ardal a wyr y *secret* eto, sef Nwyfa, a chwi a minnau."

Os oes un bai neillduol yn mherthynasau teuluol parthau gwledig Cymru, diffyg dealldwriaeth, diffyg *confidence* rhwng rhieni a phlant ar faterion penodol, yn enwedig ar fater pwysig priodas a'r cyfan sydd yn rhag-redegol i briodas, yw hyny. Nid yw'r tad a'r mab, y fam a'r ferch, bob amser, yn wir, braidd un amser yn beiddio anerch eu gilydd ar y mater pwysig hwn. Aml y cymer priodas le rhwng merch a mab yn nghanolbarth Sir Aberteifi, a'r naill a'r llall o honynt bron yn ddieithriaid hollol i'w teuluoedd yn nghyfraith hyd ddydd yr uniad. Y mae hyn yn wir hefyd yn y pentrefydd, ac yr oedd yn wir yn mhentref Llwydfaen. Nid ydym am gymeryd golwg eithafol ar y cwestiwn. Yn wir, credwn mai tarddu o rinwedd y mae'r peth yn ddechreuol. Nid yw'r Cymro gwledig yn hoffi *dangos ei hun* fel y Sais, ac y mae'n rhan o'i anian i gelu pethau mwyaf cyssegredig ei fynwes oddiwrth hyd yn nod ei geraint agosaf. Hyn sydd i egluro perthynas Mrs. Roberts a'i merch. Nid oedd pobl Mrs. Roberts ei hun wedi gweled golwg erioed ar barchedig briod dyfodol ei merch hyd ei ddyfod i'r ty ychydig wythnosau cyn y seremoni i ofyn am ei llaw; ac nid oedd Mrs. Roberts yn teimlo y dylai *siarad* a'i merch ar gwestiynau o'r fath hyn.

Pethau distaw ond sicr i gymeryd eu cwrs naturiol oedd y rhai'n, yn ei meddwl hi, ac felly yr oedd wedi gweled y materion hyn yn cael eu trin erioed. Penderfynodd felly i beidio yngan gair wrth ei merch yn nghylch Geraint Jones na Sidney Howells chwaith. Yr oedd ganddi ffydd yn Sidney, a theimlai yn sicr yn ei chalon mai efe fyddai cysur bywyd, os nad iechydwriaeth ei merch yn y diwedd. Daeth y Llun, ac awr ymadael Nwyfa. Ffarweliodd Sidney Howells a Miss Howells, ac Ethel y Siop a hi ar ben y bont, ac aeth Mr. a Mrs. Roberts mewn cerbyd i'w hanfon i orsaf Llangraianwy.

"Cymer ofal o honot dy hun fy merch i," ac "Ie wir" oedd geiriau Mrs. a Mr. Roberts pan oedd y tren yn symud i ffwrdd. A'r diwrnod hwnw wrth ymadael tywalltwyd blaenffrwyth dagrau lawer.

I'W BARHAU.

STORI SHACI'R GWAS.

(Yn nhafodiaith Sir Aberteifi. GOLYGFA: Neithior yn agos i Landyssul. AMSER: Haner can mlynedd yn ol).

Wel, wel, dyma Mari yn briod a Dafy' mab ioua Ty'ncôd;
Megis ddo rw i 'n cofio i geni yn fabi bach perta ariod.
I thad? Rw i 'n i gofio fe'n net, druan, a'i dad a'i dacû gydag e;
A thyma fi'n fyw i weld neithor i ferch heno eto'r un lle.

'Rwy'n was yma nawr, wel aroswch—os nad wy'n mistaco, fe fydd
Yn haner can mlyne Clyngeua, yn enill whech chinog y dydd,

Mi fues yn grwt yn bugila, a llynfu yn nyddie'i mangû ;
Mi ddyrnes am oriau cyn brecwast godderbyn a'i thad a'i thacû.

Gyllinwch un faril yn rhagor, a galwch am ddamper bob un ;
I Shaci gâl amser i adrodd i stori fach ddismol, ddilûn.
'Stim syndod fod hiraeth yn pwyso ar Shaci sy'n hen ag yn gam,
Wrth weled y groten a fagodd yn madel ag aelwyd i mham.

Un flyne ar bymtheg Ffair Llanarth ddiwetha, 'r odd Mari'n saith ôd,
A'i thad newy'i gladdu—fu bachgen ddim gwell yn y cwmodd ariôd.
'Rown i'n heini a sgeiddig pryd hyny, ag yr own ar fy nghryfdwr yn falch ;
Ag er nad mor ifanc a bues, yn gyru dou geffyl i'r calch.

Rodd Mari a'i gwallt fel yr olden, a'i gwrls dros i hysgwydd yn llâs,
A'i boche mor goch a'r grawelen, a'i llyged fel cenin o las.
Addawes rhyw dro cawsai ddwad am shwrne, ar weitha i mham,
Gyda fi yn y cart glas dou geffyl i'r Fan Galch i Gaerfyrddin bob cam.

O, amser nodedig odd hwnw, mi ddreifiwn dan whiban yn braf,
A nhrâd ar y shaft drw Bencader a'r seren ar wybyr yr haf.
Dodd neb a dou geffyl mor sgeiddig, nag offer yn sheinio yn fwy ;
Na chartwr mwy medrus na Shaci, ta chi'n whilo holl ffermydd y plwy.

Ond rhaid i fi ddachre fy'n stori—rown i'n dod o Gaerfyrddin un tro ;
'Rodd hi tua dou yn y bore, ag yn dywyll, 'rwy'n cofio fel ddô,
'Rodd hi'n glòs ar y rhiw, ag fe whyse'r ceffyle wrth dynu y cart ;
Ag yn wir ma'n rhaid i mi gyfadde i fi alw mewn tafarn am gwart.

Pan ddois i o'r diwedd i'r gwastod, 'rodd tipyn yn rhagor o âr,
Ag ele'r ceffyle i hunen yn ddiddig dros fynydd Shir Gâr.
Mi neides i'r cart am ryw dipyn, i sparo yn nghoese am spèl ;
Gorweddes a chysges fel deiar ; bwrddwydes a gweles—beth ? Wel—

Mi glywswn lais Tomos yn gweiddi—mi wn mai ychydig a'i cred –
Do, gweles, a chlywes dad Mari yn gweiddi,—" Dihuna, a rhed."
Dihunes, a rhwbies 'yn llyged, er eu bod ar 'y ngweitha i'n cau—
A gwelwn i lawr yn Shir Benfro, fod ambell i fellten yn gwau.

Ond, twt ! mi feddylies, 's dim densher, mae mellt yn gyffredin yr haf,
Mi ddaw y cynhaua'n gynharach, a daw'r barlys i hodi yn braf.
Mae'r nosweth yn glòs, ac mae'r ddiod yn gref, ag yn gwasgu fel plwm—
Anghofies y breuddwd, ag yna dechroies ail gysgu yn drwm.

Yn y fan, mi ddechroies ail weled a chlywed i thad fel yr ôdd
Pan ôdd e yn fyw, yn y ngalw, a chododd yr alwad yn flô'dd.
Mi gwelwn e'n sefyll i fyny yng nghanol mân ithin y rhos,
Yn ymyl pwll enbyd, mi 'i gwelwn yn glir yn y mellt yn y nos !

Dihunes a neides ar unwaith, heb feddwl am lein nag am ffrwyn :
'Doedd ise ond " We ! " i'r cyffyle—arosodd y ddou fel yr ŵyn.
Mi es dros y claw fel y milgi : drwy'r drysni a drw'r ithin mân :
Ag hyd heddy, nis gwn mwy na'r marw pwy swt yr arweiniwyd fi'n mlân.

'Rodd y mellt fel y nadrodd yn whare, a'r glaw yn dyferu fel pys :
Ond ymlan es drwy ganol y cwbwl—a'n llyged yn llawn o whys.

'Dodd gen i ddychymyg beth odd e yn y nreifo i fel hyn yn y blân ;
Nag amcan i ble'r own i 'n myned drwy'r ithin a'r dyfrodd a'r tân.

Ond doith mellten yn fwy na'r cyffredin, nes bo'r cyfan yn wynias i gyd—
A gwelwn ddyferion y gawad, ar 'u ffordd lawr o'r awyr i'r byd.
Mi welwn fynydde Shir Bemro, a llafur 'u hochre yn wyrdd
A'r teie yn wyn rhwng y coedydd, a'r glaw yn dysgleirio'r y ffyrdd.

Ond, beth oedd yn symud at ddibyn hen gware ow'ar 'slawer dy?
Beth, plentyn! ond cyn câl i weld e aeth y cyfan drachefen yn ddu ;
Dychmyges fod rhwbeth yn gweiddi a rhedes fel gwallgo i'r lle ;
Heb feddwl am safan y cware agore yn salw ar y dde.

Onibai am y fellten wen yto ag un arall yn gloi ar i gwar—
Fforwel fai i'r plentyn a finne yn yfflon ar waelod y cwàr.
Gafeiles yn nillad y plentyn—mi scgrechodd a chwmpodd i'r llawr ;
Gorweddsom yn dou ar y ddaear—'rodd hi fel y fagddu yn awr.

Ches i gyment a gair gan y plentyn—a'th yn gelen fach oer yn 'yn llaw ;
'Rodd y dillad yn lyb ag yn bringon a'i gwallt yn dyferu gan law.
Datodes y dillad, a gwasges 'y nghot am y plentyn yn rhwym ;
A thynes 'y ngwasgod a rhoddes i thrâd bach yn hono yn dwym.

Doith mellten wen eto'n disgleirio yn ngwaelod y cwar ar y llyn—
A thwrw ofnadwy yn i dilyn a gwasgwn y fach yn fwy tynn ;
Mi es at yr hewl yn fy nghyfer, a'r plentyn yn dynn yn y' nghôl
A ches fod y cart a'r ddou geffyl yr un fan pan yr es i yn ol.

Mi rhoes hi yn dyner ag esmwyth yn y cart ar y gaithen a'r gwellt ;
'Rodd y storom yn dechre mynd heibio a phellhau 'roedd y tyrfe a'r mellt ;
Mi gliriodd yr awyr yn fuan, ag yna mi dorodd y wawr—
'Rodd y plentyn yn dechre dihuno ag O ! mi nhabyddes hi nawr !

Agorodd y llyged bach gleision, symudodd y dwylo bach gwyn,
Doith y rhosis yn ol idd i boche gyda chochni yr houl ar y bryn.
Agorodd y wefus fach felus a gwedodd—" O Shaci, 'na falch
Ma Mari i gâl dod o Gafyrddin, fel gwedest, ar ben y llwyth calch."

Do's ise dim gweyd wrthych ragor fod golwg ar Mari gen i :
A gwedwch beth fynnoch, mae golwg ar Shaci y gwas gyda hi ;
Fe whilodd i mham a'r cwmdogion am dani trwy gydol y nos,
A whilo yr o'nt pan es adre bob cornel o ddyffryn a rhos.

Ond ma diwedd i gâl ar bob storom—doith y bore yn glir ac yn lâs ;
Doith Mari ar ben y llwyth adre, yn gynnes yn nghot Shaci'r gwâs.
A dyma hi heddy yn briod yn heiny a glân yn yn mysg ;
Y groten fach berta drw'r cymodd, beth bynnag a all fod i gwisg.

Mi leicech gâl clwed, a ie? pwy'n ledodd i'n strêt dros y rhos,
I achub y plentyn rhag ange yn nghanol y storm yn y nos,
Wel, os tynniff neb byth o ben Shaci rhaid iddo fod wrthi yn dâr—
Mai ysbryd o'r Nefoedd a'i ledodd pryd hyny ar fynydd Shir Gâr.

T. J. Thomas (*Sarnicol*).

CYFARFOD BLYNYDDOL Y GYMDEITHAS UNDODAIDD BRYDEINIG A THRAMOR.

Gan y Parch. D. Evans, Cwmbach, Aberdar.

Cynhaliwyd yr uchod yn Essex Hall, Llundain, Mehefin yr 2il hyd y 5ed. Byddai rhoddi hanes manwl o holl weithrediadau y gyfres gyfarfodydd yn trethu ar y gofod roddir i mi, felly ceisiaf sylwi ar yr hyn a ystyriwyf y pwysicaf o honynt. Yr oedd cyfarfod Cymdeithas yr Ysgol Sul yn ddyddorol iawn dydd Mawrth; dangoswyd ynddo wir awydd gan ein blaenoriaid i fod o wasanaeth yn y cylch pwysig hwn. Darllenwyd dau bapyr buddiol iawn gan ddau o'n gweinidogion yn ymwneud â gwaith yr Ysgol Sul. Mewn atebiad i roesaw y Llywydd, y Parch. J. Harwood, B.A., i'r cynrychiolwyr, dangosodd y Parch. T. J. Jenkins, Gellionen, yr hyn sydd yn cael ei wneud yn ein Hysgolion Sul ninau yn Nghymru, mewn araeth dlos a dyddorol. Nos Fawrth, cafwyd yr *Essex Hall Lecture* gan Augustine Birrell, K.C., ar "Emerson fel meddyliwr ac ysgrifenwr." Yr oedd cynulliad da o wrandawyr astud yn bresenol; a barnu oddiwrth yr olwg, cawsant eu llwyr foddloni. Amserol a buddiol iawn oedd y Bregeth Flynyddol a draddodwyd bore dydd Mercher yn Capel Little Portland Street gan un o brif bregethwyr yr enwad yn America, sef y Parch. J. H. Crooker, D.D., Ann Arbor, Mich. Y testyn oedd "Efengyl gogoniant y bendigedig Dduw."—1 Tim. i. 2. Y mae y Dr. yn bregethwr hyawdl, clir, a dylanwadol, yn gallu codi cynulleidfa i dir uchel ysprydoliaeth, a gwnaeth hyny fwy nag unwaith yn ystod yr wythnos. Effeithiol iawn hefyd oedd y rhan ddefosiynol gan y Parch. E. D. Priestley Evans (Cymro o waed coch cyfan). Yn yr hwyr cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus. Yr oedd hwn yn un pwysig. Traddododd y Llywydd (y Parch. R. A. Armstrong, B.A.) ei anerchiad o'r gadair, yr hon oedd yn deilwng o hono ef ei hun. Canlynwyd ef gan amryw foneddigion a boneddigesau, a'r mwyaf brwdfrydig, efallai, oedd y Parch. C. Hargrove, M.A., ar "Ein hachos, a ydyw yn werth ei gynal?" Nid oes angen dweyd iddo brofi uwchlaw amheuaeth, ei fod. Boreu dydd Iau, cynhaliwyd cynhadleddau er ystyried y modd goreu i ledaenu yr Efengyl Undodaidd yn mhell ac agos. Yn y prydnawn darllenodd Dr. Crooker bapyr i glywedigaeth gweinidogion yn unig ar "Addoliad Cyhoeddus." Papyr meistrolgar a dyrchafol iawn oedd hwn. Yn yr hwyr cymerodd *Conversazione* le, a chyfarfuasom a llawer o Undodiaid Cymreig sydd yn byw yn y brifddinas. Yr oeddem wedi cael gair da i rai o honynt fel gweithwyr diwyd gyda'r achos cyn erioed eu gweled na'u hadnabod. Da genym bob amser am yr Undodiaid hyny nag sydd a chywilydd arnynt i arddel eu syniadau crefyddol pa le bynag y byddont.

Bore dydd Gwener cymerodd cyfarfod neillduol le o gynrychiolwyr, er ystyried y modd goreu i gario allan waith cenhadol yn ystod yr Hydref nesaf. Fel y gwyr llawer o ddarllenwyr YR YMOFYNYDD y mae yna foneddwr haelionus (sydd a'i enw yn anhyspys) wedi cynyg £1000 yn flynyddol os ceid £2,000 arall, i'r dyben o ledaenu gwaith y *B. & F.U.A.*, a da genym fod yr arian wedi eu haddaw. Ystyriwyd amryw gynlluniau, a gobeithiaf y bydd i rywbeth gael ei

wneud yn Nghymru er dal ar y fantais werthfawr hon. Prydnawn Gwener bu y dirwestwyr mewn cynadledd, a chynaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn yr hwyr. Yn ystod yr wythnos bu amryw o'r gwragedd yn cymeryd rhan a gwnaethant yn rhagorol. Y mae Miss Marian Pritchard (Llywyddes etholedig Cymdeithas yr Ysgol Sul) a Mrs. Crooker o'r America yn deilwng i'w henwi am yr areithiau swynol, toddedig a draddodasant yn y cyfarfodyddd. Dyna fras-lun digon anmherffaith mi wn, o'r wythnos, Mri. Gol., a theimlaf yn ddiolchgar iawn i'r Gymdeithas Gymreig am yr anrhydedd a wnaeth a mi drwy fy newis i'w chynrychioli yn y cyfarfodydd pwysig hyn. Cefais hwynt yn ffynonellau o nerth, buddioldeb ac ysprydoliaeth, ac erys eu dylanwad yn hir ar fy meddwl.

MARWOFION.

Ionawr 15fed, yn 3 oed, David, mab i Evan a Mary Jones, Crugyreryr, Talgareg. Y Llun canlynol cladwyd yn Bwlchyfadfa, pryd y gwasanaethwyd gan y Parch. T. C Benjamin (A.) [Mae yn ddrwg gan yr ysgrifenydd ei fod wedi anghofio danfon yr uchod i fewn yn amserol.]

Ebrill 17eg, sef dydd Gwener, torodd tân allan ar fwrdd yr agerlong, Weppington Hall, yn Nghaerdydd, a bu'n achos angeu i Thomas Jenkins, y *chief engineer*. Anturiodd Jenkins trwy'r mwg a'r tân i geisio achub Thomas Griffiths, y *third engineer*, yr hwn oedd yn cysgu ar y pryd. Llwyddodd yn ei ymgais, ond collodd ei fywyd ei hun wrth hyny. Esiampl ardderchog o gariad yw, pan fyddo un yn rhoddi ei einioes dros ei gyfaill. Dyna'r gwir arwr, yr hwn sydd yn cadw einioes. Yr oedd Mr. Jenkins yn fab i'r diweddar Mr. William Jenkins, Gadlys, Aberdar, ac yn frawd i Mr. Joseph Jenkins, Victoria Hotel, Ferndale, yr hwn sydd yn awr wedi ei adael heb dad na mam, na brawd na chwaer. Gedy ar ei ol hefyd weddw alarus a dau neu dri o blant. Rhodded rhaglun-iaeth dyner yn helaeth o'i dangnefedd iddynt. Gwasanaethwyd yn yr angladd gan y Parch. D. Rees, Pentre, ac er boddlonrwydd cyffredinol.

Bu farw dyn,
Hyn ydyw llef marwolion ;
Fe anwyd plentyn
Ydyw llais angylion.

Ebrill 22ain, Edward, mab y diweddar John ac Anne Morgan a brawd Morgan Morgan, 24, Bell Court, Aberdar, organydd yr Hen Dy Cwrdd, yn 43 oed. Gwasanaethwyd ar ddydd yr angladd, sef dydd Sadwrn y 25ain, gan R. J. J. a'r Parchn. Grawys Jones, Ebenezer a J. D. Rees, Salem. Nid oes ond ychydig yn ardal Trecynon, yn hen nac ieuanc nad oeddynt yn adnabod y diniwed Edward Morgan, ac na theimlant yn chwithig ei golli o'i plith. Yr oedd y cynhebrwng yn lluosog a nifer y plant ynddo yn arwydd o deimlad parchus tuag at yr ymadawedig.

" Un hawddgar a diniwed oedd,
A Duw y lluoedd ofnai ;
'Nol goreu'i wybod hyd ei fedd,
Ar hyd ffordd hedd y rhodiai."

Mai 25ain, Anne, merch fechan

Evan a Winnie Evans, Penrhiw, Talgarreg, yn 9 mis oed. Claddwyd y Mercher canlynol yn mynwent Capelfadfa. Gwasanaethwyd gan y Parch. E O. Jenkins.

MAI 30ain, yn 7 wythnos oed, Anna Jane, baban T. G. a Margaret Thomas, Crugyreryr Factory, Talgarreg. Gosodwyd y rhan farwol o honi i orwedd yn nghladdfa Bwlchyfadfa y dydd Mawrth canlynol. Y Parchn. E. O. Jenkins a T. A. Thomas yn gwasanaethu.

MAI 30ain, Mary Jones, Pantffynon (neu Mary Jones, Cerigdrydion), Cellan, yn 94 mlwydd oed. Yn marwolaeth ein hen chwaer hon collodd eglwys fechan Caeronen un o'i hen ffyddloniaid am hir flynyddau a pharhaodd yn ffyddlon hyd y diwedd, er ei bod wedi ei hanalluogi gan henaint er's rhai blynyddau i fynychu y lle. Un oedd yn hanu o deulu enwog am ei ffyddlondeb dros yr achos yn Caeronen a Llanbedr, ond tebyg nad oedd yr un o honynt yn fwy felly na Mary Jones. Hyderwn y daw eraill eto o gyffelyb yspryd i lanw y bylchau a wneir yn y fel yma yn barhaus gan angeu. Gadawodd un mab a pherthynasau ereill a chyfeillion lawer mewn galar ar ei hol. Daeth torf luosog i hebrwng ei gweddillion i dy ei hir gartref yn mynwent Caeronen a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan weinidog y lle.

MAI 31ain, yn 7 oed, Eleanor, anwyl ferch Evan a Mary Walters, Clettwr Arms, Llandyssul. Ymddangosai yr un fechan mor hoew ac iach hyd o fewn rhyw fis i ddydd ei marwolaeth. Cafodd gystudd caled, a bu tad a mam a pherthynasau tyner yn gweini arni, hyd yr ehedodd ei hyspryd at Dduw yr hwn a'i rhoes. Claddwyd y Mercher canlynol yn Pantdefaid a'r Parch. Arthur Thomas yn gwasanaethu.

MEHEFIN 1af, ar ol ychydig ddyddiau o gystudd, yn 76 mlwydd oed, Daniel Jenkins, Glanwern, Llanfihangel-Ystrad. Yr oedd yr ymadawedig wedi ei fendithio a chorff cryf, ac a iechyd da drwy ei oes. Yr oedd yn ddyn o alluoedd meddyliol cryfion, yn ddarllenwr cyson, ac yr oedd ei gymdeithas yn ddyddorol neillduol. Yr oedd iddo barch mawr gan bob gradd o fewn y fro y preswyliai ynddi, ac enillodd iddo ei hun y gair o fod yn arbenig am ei garedigrwydd. Y Sadwrn canlynol daeth tyrfa luosog yn nghyd i hebrwng ei weddillion i orwedd yn mynwent eglwys Capelygroes. Pregethwyd yn y tŷ gan y Parch. L. Williams, a chyflawnwyd y gweddill o'r gwasanaeth yn y capel ac ar lan y bedd gan y Parchn. R. C. Jones a D. Evans. Cysuron yr Efengyl fyddo yn meddianu ei briod a'i blant.

MEHEFIN 12fed, yn 69 oed, Mary Marles Thomas, South Marine Terrace, Aberystwyth, gweddw y diweddar Barch. W. Thomas, M.A. (Gwilym Marles), Llandyssul. Ar ol marwolaeth ei phriod yn 1879, daeth Mrs. Thomas yn adnabyddus i gylch helaeth fel athrawes hynod o fedrus a llwyddianus. Cychwynodd ysgol i ferched yn Llandyssul. Symudodd oddiyno i Gaerfyrddin, ac yn ddiweddaf oll i Aberystwyth. Yr oedd ynddi gymhwysder neillduol i addysgu eraill. Heblaw doniau naturiol o radd uchel, yr oedd wedi cael addysg dda, ac wedi treulio ei hoes mewn cysylltiad ag addysg yn rhyw ffurf neu gilydd. Credai a'i holl galon mewn addysg, ac fel canlyniad glynodd hyd y diwedd gydag ymroddiad neillduol wrth genadwri ei bywyd. Gwnaeth aberthau fil i roddi yr addysg oreu i'w phlant, a chafodd yn wobr y pleser o'u gweled oll yn ymgodi i safleoedd anrhydeddus mewn cymdeithas. Erys ei henw mewn anrhydedd, gan mor ffyddlon y daliodd *ideals* mawrion dyledswydd a chynydd o flaen llygaid ugeiniau o ferched ein gwlad. Cymerodd y gladdedigaeth le y dydd Mawrth canlynol. Gweinyddodd y Parch. T. A. Penry, Aberystwyth yn y tŷ, a'r Parchn. W. James, Brynhyfryd a J. Davies, Alltyplacca, yn Llwynrhydowen, lle y gosodwyd yr hyn oedd farwol o honi i orphwys yn medd ei phriod.

MANION AC HANESION.

CYMANFA GERDDOROL CEREDIGION.—Cynhaliwyd y Gymanfa hon ddydd Llun, Mehefin yr 8fed, yn Nghaerfyrddin, ac wrth edrych yn ol mewn yspryd beirniadu ar ein prif wyl gerddorol, gan nad beth oedd ein barn cyn y diwrnod hwnw, dywedwn yn ddibetrus yn awr mai doethineb ar ran y pwyllgor ydoedd dewisiad Caerfyrddin fel man i'w chynal eleni. Yn Aberystwyth cynhaliwyd Cymanfa 1901, a theimlem rywfodd ein bod ni yn nghanol Rhagfyr rewllyd ac nid ar un o ddyddiau mwyn Mehefin, ac nid ydym yn bersonol am fyned i Aberystwyth eto. Ond gobeithio na fydd y pwyllgor yn hir iawn cyn penderfynu ymweled a thref henafol Caerfyrddin er cynal ein cymanfa eto. Un peth o leiaf, dangoswyd i bobl serchog prif dref y Sir fod Undodiaeth yn allu byw yn Ngheredigion, os nad oedd yn Nghaerfyrddin, a dywedodd un cerddor enwog wrthyf na chafwyd y fath "dreat gerddorol" yno er ys tro. Wel, beth am y Gymanfa? Yr oedd yn llwyddiant hollol, o bosibl ei bod yn fwy o lwyddiant nag oedd rhai o'n eglwysi yn haeddu. Cafwyd tywydd tesog, fel yr arferwn gael i gynal ein prif wyliau; yr holl gerddorion wedi dyfod yno yn gryno o'r gwahanol eglwysi gydag awydd a blas i ddyrchafu eu lleisiau mewn mawl a chan i Dduw. Hwn ydoedd y tro cyntaf i'r arweinydd, y Parch. D. Evans, Cwmbach, i arwain Cymanfa Ceredigion, a gallwn ei sicrhau mai barn unfrydol y cantorion oedd mai nid hwn fydd y tro olaf iddo gael yr un gwahoddiad. Yr oedd ei ddull hunanymwadol, ei osgo effeithiol a'i lais treiddgar yn elfenau nodedig ynddo i'w wneud yn arweinydd cymanfa *of the first water*. Cafwyd hwyl anarferol wrth ganu amryw o'r tonau, megis Bampton, Graig, Lewes a St. Aelred, yn nghyd a'r corawd "Haleluia." Cafwyd unawdau gan Miss Ithwen Davies a Mr. Evan Davies, Llanbedr, mewn modd effeithiol. Yn ychwanegol at garedigrwydd eglwys y Tabernacl yn rhoddi eu capel hardd ac eang a'r *Organ* at ein gwasanaeth, cyfeiliwyd mewn modd meistrolgar drwy'r dydd gan yr organyddes, Miss May Davies, Cloth Hall. Y mae ein diolchgarwch mewn modd neillduol yn ddyledus i'r cyfeillion caredig hyn, ac yn brawf nad yw eu caredigrwydd hwy, o leiaf, yn rhedeg yn unig mewn enwad neu sect. Llywyddwyd gan y Parch. E. O. Jenkins yn y boreu, a chan y Proff. J. H. Weatherall, M.A., Caerfyrddin yn y prydnawn. Cafwyd anerchiadau gan y Parch. James Harwood, B.A., Llundain, yr hwn oedd yn bresenol ar gais y *British and Foreign Unitarian Association*, a'r Parch. H. Fisher Short, Aberdar. Yr oedd yr holl weinidogion yno y rhai fu yn cyfranu mewn amryw ffyrdd at lwyddiant y gymanfa. Y Cyfeilyddesau oeddynt y Misses Evans a Williams, Llanbedr, Miss Thomas, Green Park, a Miss James, Brynhyfryd. Ond o bosibl mai yr un weithiodd galetaf, ac a aberthodd fwyaf o'i amser tuag at lwyddiant y gymanfa ydoedd yr ysgrifenydd, Mr. J. R. Jones, Cwrtnewydd, ac y mae holl eglwysi yr undeb o dan rwymau neillduol iddo. Wrth derfynu, gadawer i ni ddyweyd ein bod mewn yspryd i weinyddu cerydd y diwrnod hwnw wrth weled *rhai* o'r cantorion yn dyfod i gyfarfod y boreu ychydig fynydau i haner dydd. Dylai pawb, o'r lleiaf i'r mwyaf, deimlo fod llwyddiant pob achos yn ymddibynu ar ei ffyddlondeb personol ef.—*Idris*.

SHEFFIELD.—Bydd yn dda gan ddarllenwyr YR YMOFYNYDD i wybod fod y Parch. E. E. Jenkins, gynt gweinidog Capelygroes, a myfyriwr yn ddiweddarach yn Ngholeg Manchester, Rhydychen, wedi derbyn galwad i fod yn olynydd i'w frawd,

y Parch. J. E. Jenkins, fel gweinidog cynorthwyol Upper Chapel, Sheffield, ac arolygydd yr orsaf genhadol a ddygir yn mlaen o dan nawdd y gynulleidfa yn Attercliffe. Dechreuodd Mr. Jenkins ar ei waith yno ar yr 21ain o Fehefin, y Sul yr oedd ei frawd yn pregethu ei bregeth ddiweddaf cyn ei ymadawiad i Padiham. Mae ein dymuniadau goreu yn myned gyda'r Parch. E. E. Jenkins i Sheffield, a gobeithiwn y cawn y fraint heb fod yn hir o gofnodi ei lwyddiant fel eraill o'i flaen yn y weinidogaeth Saesneg.

GALWAD.——Llawenydd genym longyfarch Mr. John Evans, B.A., o Goleg yr Home Missionary, Manchester, ar ei waith yn derbyn galwad oddiwrth yr eglwys yn Bolton i fod yn gynorthwywr i'r Parch. Christopher J. Street, M.A., Ll.B. Bwriada Mr. Evans ddechreu ar waith y weinidogaeth yn mis Gorphenaf, ac eiddunwn iddo bob llwyddiant yn y maes Saesneg.

CLYDACH VALE.—Cynhaliwyd y Tê Parti blynyddol prydnawn dydd Iau, yr 31ain o Ebrill. Pasiodd pob peth yn hwylus. Daeth llawer iawn o Undodiaid y Rhondda yn nghyd, ac yr oedd y nifer o ddieithriaid fu yn cyfranogi o'r tê a'r danteithion yn brawf fod hyd yn nod enwadaeth yn cael ei anghofio ar achlysuron dyddorol o'r natur hyn. Teimlwn yn ddiolchgar iawn i'r chwiorydd caredig am eu gwasanaeth gwerthfawr. Pleser genym hefyd gofnodi na fu y "gwyr a'r gweision" (chwedl Morganwg) ddim yn ol yn eu parodrwydd i estyn pob cymhorth yn eu gallu. Gwnawd deuddeg punt yn glir tuag at drysorfa'r capel y llynedd oddiwrth y Tê Parti. Gobeithio na fydd ddim yn llai eleni.

Y GRAIG A GELLIONEN.—Cynaliodd yr eglwysi uchod eu cyfres gyfarfodydd haner-blynyddol Sul a Llun, Ebrill 19, 20, yn y Graig, Trebanos. Pregethwyd gan y Parchn. D. Rees, Pentre a J. Hathren Davies, Cefncoed. Cafwyd cyrddau da a chasgliadau mor dda a hyny.

LLWYNRHYDOWEN.—Dydd Sul y 24ain o Fai, cyfarfu Ysgolion Sul Bwlch, Llandyssul, Pantdefaid a Llwyn, yn nghapel newydd yr olafer adrodd rhanau o'r Ysgrythyrau, a dadganu amryw donau ac anthemau. Holwyd y gwahanol ysgolion gan y Parchn. W. James, E. O. Jenkins ac Arthur Thomas. Arweinydd y canu ydoedd Mr. Evan Richards, Llandyssul, ac aeth trwy ei waith yn ganmoladwy. Yn yr hwyr pregethwyd gan y Parchn. W. James ac Arthur Thomas i gynulleidfa fawr. Cafwyd tywydd dymunol a chymanfa lwyddianus yn mhob ystyr.

CAERONEN.—Dydd Llun, Mai 18, cynhaliodd Dosparth Uchaf Cerediglon eu Cymanfa Ysgolion yn Nghaeronen, pryd y daeth yn nghyd aelodau Ysgolion Sul Caeronen, Alltyplacca, Brondeifi a Chapelygroes. Holwyd hwy yn y gwahanol ranau o'r Ysgrythyrau gan y Parchn. John Davies, R. C. Jones a D. Evans. Aethant oll drwy eu gwaith yn ganmoladwy ac yr oedd ol llafur i'w ganfod yn amlwg yn ystod y dydd. Yn yr hwyr pregethwyd i gynulleidfa fawr gan y Parchn. Arthur Thomas, Pantdefaid a Lewis Williams, Rhydygwin. Rhoddwyd croesaw calonog i bawb gan gyfeillion caredig Caeronen, ac nid oedd y byrddau llawnion ond amlygiadau o deimladau cynhes y rhai fu yn parotoi.

RHYDYGWIN. — Cynhaliwyd ein Gwyl De flynyddol ddydd Gwener y Groglith. Daeth cynulliad da yn nghyd i gyfranogi o'r darpariaethau blasus, rhoddedig gan Mrs. Jones, Nantyronen; Mrs. Davies, Gwrthwynt, a Mrs. Lloyd, Felindre. Dilynwyd y wledd fel arfer, gan gyfarfod adloniadol, yn yr hwn y cadeiriwyd gan y gweinidog, ac yr arweiniwyd gan y Parch. E. E. Jenkins, Blaenwaunganol. Da oedd genym weled nifer mor luosog yn cymeryd rhan yn ngwaith y cyfarfod hwn, ac hefyd i weled pawb yn myned drwy eu gwaith mor rhagorol. Haedda Mr. Hughes, arweinydd y gân, a phawb ereill fu yn cydweithio gyda'r canu a'r adrodd, ganmoliaeth am eu llafur.

BRONDEIFI.—Rhoddwyd gwledd o dê a bara brith i blant Gobeithlu Brondeifi ar y 24ain o Ebrill, ac yn ychwanegol at y tê gwobrwywyd y rhai ffyddlonaf o honynt a llyfrau am eu ffyddlondeb. Ac nid pleser bach oedd edrych ar y plant yn mwynhau eu hunain.

Y GYMDEITHAS UNDODAIDD GYMREIG.—Derbyniwyd a ganlyn yn ystod y mis: Mrs. Evans, Tregaron, 2s. 6c.; L. N. Williams, Aberdare, 10s.6c.; J. Evans, B.A., Manchester, 2s.6c.; S. Jones, B.A., eto, 2s. 6c.; D. Davies, eto, 2s. 6c.; J, Park Davies, B.A., Rhydychen, 2s. 6c.; Islan Jones, B.A., eto, 2s.6c.; Parch. L. Willams, Rhydygwin, 5s.; Parch. G. Evans, Chesterfield, 5s.; Cwmbach, 17s. 7c.; Parch. J. E. Jenkins, Padiham, 2s.6c.; Brondeifi, £1 4s.4c.; Clydach Vale, 11s.6c.; Pentre Rhondda, 10s. 6c.; J. Davies, Maesyrheddydd, Llanfihangel-ar-Arth, 5s.; Pantdefaid, £1 12s. 2c.; Parch. R. C. Jones, Llanbedr, 5s.; Alltyplacca, £1 7s. 6c.; Dowlais, 11s.; J. Lewis, eto, 2s. 6c.; Miss Lewis, eto, 2s. 6c.; Parch. J. P. Kane, 2s. 6c.; John Jones, 2s. 6c.; Thomas Jones, Cwrtnewydd, 5s.; Hen Dy Cwrdd, Aberdar, £1 7s. 2c.; Parch. T. Lloyd-Jones, Lerpwl, £1; Parch. E. C. Jones, Bradford, 10s.6c.; Caeronen, 10s.; Mrs. Davies, Trebanne, eto, 5s.; Mrs. Davies, Wern Cottage, eto, 5s.; Rhydygwin, £1; Saunders Davies, eto, 5s.; Ciliau, 15s. 6c.; Aberystwyth, 2s. 6c.; D. Eiddil Jones, Cefncoed, 10s.; Sychbant, 7s.; gweddill mewn llaw o'r Hen Drysorfa Addysg, oddiwrth yr ysgrifenydd, y Parch. R. C. Jones, Llanbedr, £1 10s.; Graig, Llandyssul, £1 4s. Mae rhai casgliadau a thanysgrifiadau yn aros heb eu derbyn. Hyderwn ar ffyddlondeb ein heglwysi a chyfeillion y Gymdeithas i'w hanfon yn ddioedi.

GWEITHREDIADAU Y PWYLLGOR, GOR. 23.—Heblaw y pethau arferol, megys darllen yr adroddiad a'r fantolen, ethol swyddogion, &c., daw y materion canlynol o dan sylw y Pwyllgor: (1) Llyfr Emynau a Thônau i'r Ysgol Sul; (2) Cymdeithas Ddirwestol fel adran newydd (y Parch. T. J. Jenkins); (4) Y Colegau a chyflenwad y Weinidogaeth. (4) Colledion Undodiaeth yn y ffurf o *leakages* (Parch. D. Rees); (5) Llawlyfr Cymraeg ar y Beibl.—W. JAMES, *Ysg.*

[O ddiffyg gofod gorfodwyd ni adael allan rai Nodion yn nghyd a Rhestr y Taliadau am *Yr Ymofynydd.*]

Y GYMDEITHAS UNDODAIDD GYMREIG.

Llywydd—Y Parch. T. LLOYD JONES, Lerpwl.
Is-Lywydd—Y Parch. D. EVANS, Cribyn.

Cynhelir y CYFARFOD BLYNYDDOL yn Hen Dy Cwrdd Aberdâr, ar ddyddiau Mercher ac Iau, Gorphenaf 22 a 23, 1903. *Rhagdrefn y Cyfarfodydd:*—Mercher, 5.30, (hwyr) Pwyllgor Arianol; 6.30, Cymundeb. *7.15, Gwasanaeth a Dwy Bregeth. Iau, 8.30, Pwyllgor y Gymdeithas; 10.30, Pwyllgor Adran yr Ysgol Sul. *11.30, Gwasanaeth a Phregeth; *2, Anerchiad y Llywydd; 3.30, Cyfarfod yr Ysgol Sul; *7, Gwasanaeth a Dwy Bregeth—un o honynt gan y pregethwr apwyntiedig—y Parch. J. Hathren Davies, Cefncoed.

*Gwneir casgliad yn mhob oedfa at y Gymdeithas a'i treuliau.

Gobeithiwn weled cyfarfod llawn o gynrychiolwyr ein heglwysi ac aelodau y Gymdeithas. O braidd mae eisiau dweyd am eglwys gyda chymeriad yr Hen-dy-Cwrdd tucefn iddi, y bydd croesaw calon i bawb, a digonedd o bob peth ar eu cyfer.

W. JAMES, YSG.

J. D. Lewis, Ager Argraffydd, Gomerian Press, Llandyssul.